CYHOEDDIAD

# Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru

Cytundeb i sicrhau bod y comisiynydd a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n effeithiol i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Medi 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 7 Medi 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cefndir

Egwyddorion

Llywodraethiant

Rhannu Gwybodaeth

Cyfarfodydd

Adroddiad Blynyddol Comisiynydd

Ariannu

Cymraeg 2050

Cydweithio

Atodiad 1

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 1.Cefndir

1.1. Mae'r Memorandwm hwn yn amlinellu'r berthynas waith rhwng Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") a Llywodraeth Cymru ("y Llywodraeth"). Ei bwrpas yw sicrhau bod y Comisiynydd a'r Llywodraeth yn cydweithio'n effeithiol ac yn adeiladol i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Mae'r ddau gorff hefyd yn ymrwymo i gyd-gyfrannu at wireddu amcanion Ffyniant i Bawb - Rhaglen Lywodraethu'r Llywodraeth, a Cymraeg 2050 – Strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg. Wrth ymgymryd â'u gwaith bydd y ddau gorff yn gweithio tuag at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig y nod o greu "Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu". Mae'r Memorandwm a'r trefniadau sydd ynddo wedi cael eu cytuno gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol ar ran Gweinidogion Cymru, a chan Gomisiynydd y Gymraeg.

1.2. Nid yw'r Memorandwm wedi'i rwymo mewn cyfraith, ond mae'r Comisiynydd a'r Llywodraeth yn cytuno i weithredu yn unol ag ef. Nid yw'r memorandwm ychwaith yn disodli nac yn cymryd blaenoriaeth dros ddarpariaethau'r Mesur.

1.3.Er mwyn cael sefydlogrwydd a chysondeb, mae'r Memorandwm hwn yn sefydlu trefniadau gwaith am dymor y Llywodraeth gyfredol, ac yn dangos aliniad clir â rhaglen lywodraethu'r Llywodraeth a strategaeth Cymraeg 2050. Dylai'r Comisiynydd ystyried Rhaglen Lywodraethu'r Llywodraeth a strategaeth Cymraeg 2050 wrth baratoi Cynllun Gwaith blynyddol.

# 2.Egwyddorion

2.1 Mae darpariaethau ym **Mharagraff 1(4) Atodlen 1 i'r Mesur** yn diogelu annibyniaeth y Comisiynydd i weithredu yn annibynnol ar Weinidogion Cymru drwy sicrhau bod rhaid i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ddymunol sicrhau bod y Comisiynydd o dan gyn lleied o gyfyngiadau ag y bo’n rhesymol. Yn gysylltiedig, mae **Adran 16 y Mesur** yn nodi pryd mae gan Weinidogion bwerau i gyfarwyddo’r Comisiynydd.

2.2 Mae Gweinidogion Cymru yn parchu bod angen i’r Comisiynydd weithredu’n annibynnol er mwyn bod yn llais annibynnol a chryf dros y Gymraeg, ac i fedru craffu ar waith y Llywodraeth. Mae’r Mesur yn rhoi pwerau i’r Comisiynydd i gyflwyno argymhellion a chyngor i Weinidogion Cymru ac mae’n bwysig bod ganddo’r hyder i wneud hynny heb i Weinidogion ddylanwadu arno.

2.3 Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo’r Comisiynydd. Mae Adran 16 y Mesur yn nodi’r eithriadau i’r pwerau hynny:

> “ **Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd**
>
> “1. Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiynydd.
> 2. Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiynydd mewn perthynas â'r materion canlynol -
>    a. rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson o dan Bennod 6 o Ran 4 (gan gynnwys cynnwys hysbysiad cydymffurfio sydd i'w roi i berson);
>    b. Rhan 5 (gorfodi safonau);
>    c. Rhan 6 rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg)
> 3. Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru. ”

2.4 Mae Llywodraeth Cymru’n ystyried y Comisiynydd yn bartner allweddol o ran gweithredu **strategaeth y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050**.

Mae’r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth er mwyn cynnig sylfaen gadarn i gwrdd â thargedau Strategaeth Cymraeg 2050.

2.5 Mae cyd-weithio tuag at wireddu targedau Cymraeg 2050 yn ganolog i’r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

berthynas rhwng y Llywodraeth a’r Comisiynydd, felly hefyd sicrhau bod y ddau gorff yn deall yn union beth yw cyfraniad y naill a’r llall tuag at hynny. Dau brif darged Cymraeg 2050 yw:

- Nifer siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- Canran y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

2.6 Mae’r Comisiynydd yn ystyried Llywodraeth Cymru yn ariannwr ac yn bartner allweddol. Mae’r Comisiynydd yn cytuno i ddarparu gwybodaeth reolaidd ar ei raglen waith, ac ar unrhyw fater arall o bwys, fel bo Gweinidogion Cymru yn gallu cael eu briffio mewn modd amserol a phriodol. Yn yr un modd, mae’r Llywodraeth yn ymrwymo i ddarparu unrhyw wybodaeth sy’n berthnasol i waith y Comisiynydd yn amserol, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â phrosiectau a pholisïau’r Llywodraeth a materion ariannol a chyllidol sy’n effeithio ar y Comisiynydd. Mae Adran 4 yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn a rhannu dogfennau a datganiadau.

# 3. Llywodraethiant

3.1 Mae’r adran hon yn amlinellu trefniadau llywodraethiant y Comisiynydd:

## Swyddogaeth Swyddog Cyfrifyddu

3.2 Mae’r Comisiynydd yn cael ei benodi gan y Prif Weinidog o dan ddarpariaethau’r Mesur. Mae paragraff 16 (1) o Atodlen 1 i’r Mesur yn datgan mai’r Comisiynydd yw swyddog cyfrifyddu ar gyfer swyddfa’r Comisiynydd.

3.3 Y Swyddog Cyfrifyddu sy’n gyfrifol, ymysg pethau eraill, am lofnodi’r cyfrifon,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ac yn bersonol gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra gwario'r cyllid cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdano. Mae'r swyddog cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn ddarbodus, effeithiol ac effeithlon.

3.4 Mae cyfrifoldebau llawn y Swyddog Cyfrifyddu wedi'u pennu gan Trysorlys y DU.

## Llywodraethiant Swyddfa'r Comisiynydd

### Panel Cynghori'r Comisiynydd

3.5 Mae Adran 23 y Mesur yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru benodi aelodau o banel o gynghorwyr i'r Comisiynydd. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod o leiaf 3 ond nid mwy na 5 o aelodau ar y Panel Cynghori ar unrhyw adeg. Wrth benodi aelodau bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu yn unol â rheoliadau- y rhai cyfredol (pan arwyddwyd y memorandwm hwn) yw **Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012**.

Pan fydd tymor aelodau'r Panel Cynghori yn dod i ben, fe fydd Gweinidogion Cymru yn trafod â'r Comisiynydd er mwyn adnabod anghenion am arbenigedd y Panel Cynghori cyn mynd ati i ddechrau proses penodiadau cyhoeddus.

Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori â'r Panel Cynghori yn unol â darpariaethau'r Mesur. Mae cyfeiriadau yn y Mesur at ymgynghori â'r Panel Cynghori yn caniatáu i'r Comisiynydd ymgynghori ag unrhyw un neu ragor neu bob un o aelodau'r Panel.

### Pwyllgor Archwilio a Risg y Comisiynydd

3.6 Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

swyddfa’r Comisiynydd yn cael ei rhedeg mewn ffordd ddarbodus, effeithiol ac effeithlon er mwyn sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Mae gan y Comisiynydd bwyllgor archwilio a risg er mwyn rhoi sicrwydd o hynny i Weinidogion Cymru, y Cynulliad a’r cyhoedd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynghori’r Comisiynydd ar brosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethiant. Mater i’r Comisiynydd yw pennu nifer yr aelodau, penodi aelodau, a threfnu cyfarfodydd.

### Tîm Rheoli’r Comisiynydd

3.7 Mater i’r Comisiynydd fydd penderfynu ar aelodaeth y Tîm Rheoli ac ar amlder a ffurf y cyfarfodydd. Prif bwrpas y Tîm Rheoli yw cynnig cefnogaeth a chyngor i’r Comisiynydd ar gyfeiriad strategol a rhaglen waith y corff. Y Tîm Rheoli sy’n gyfrifol am arweinyddiaeth strategol y corff, a rheoli’r corff o ddydd i ddydd.

# 4. Rhannu Gwybodaeth

## Dogfennau

4.1 Pan fydd y Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad ynglŷn â Llywodraeth Cymru, neu adroddiad yn ymwneud â maes polisi mae’r Llywodraeth yn gyfrifol amdano, bydd y Comisiynydd yn rhannu copi drafft o flaen llaw ac yn rhoi cyfle i’r Llywodraeth roi sylwadau ac yn eu hystyried cyn cyhoeddi copi terfynol.

4.2 Lle mae gan Weinidogion Cymru rôl i gymeradwyo neu cydsynio dogfen sy’n cael ei lunio gan y Comisiynydd, bydd y Comisiynydd yn rhannu drafft cynnar gyda Gweinidogion ac yn ystyried sylwadau cyn ymgynghori ar y ddogfen.

4.3 Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i’r Llywodraeth o leiaf ddau ddiwrnod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gwaith o flaen llaw, gan amgáu copi, os bydd yn bwriadu cyhoeddi unrhyw adroddiad neu ddogfen (gan gynnwys adroddiadau neu ddogfennau y mae'r Llywodraeth wedi rhoi sylwadau arnynt eisoes). Ni fydd y Llywodraeth yn trafod nac yn rhannu'r rhain yn allanol cyn i'r Comisiynydd wneud cyhoeddiad.

4.4 Yn yr un modd fe fydd y Llywodraeth yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o flaen llaw, gan rannu copi, os yw'n bwriadu cyhoeddi unrhyw adroddiad neu ddogfen sy'n effeithio'n uniongyrchol ar waith y Comisiynydd. Ni fydd y Comisiynydd yn trafod nac yn rhannu'r rhain yn allanol cyn i'r Llywodraeth wneud cyhoeddiad.

4.5 Mae adroddiadau sydd wedi eu llunio o dan Rhan 5 o'r Mesur (gorfodi safonau), ac adroddiadau sy'n ymwneud â materion yn Adran 16(2) y Mesur (gweler pwynt 2.3 o'r Memorandwm), wedi'u heithrio o'r trefniant uchod.

4.6 Pan fydd y Comisiynydd yn ymateb i ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, bydd copi o'r ymateb yn cael ei anfon at Isadran y Gymraeg.

## Datganiadau

4.7 Bydd y Comisiynydd a'r Llywodraeth yn rhoi blaen rybudd i'w gilydd pan fydd bwriad gan y naill neu'r llall i gyhoeddi datganiad i'r wasg sy'n ymwneud â gwaith y llall. Fe fydd copi o'r datganiad yn cael ei rhannu mor fuan ag sy'n ymarferol phosib.

4.8 Fe fydd y Llywodraeth yn rhoi blaen rybudd i'r Comisiynydd pan fydd Gweinidog yn gwneud datganiad llafar neu ysgrifenedig sy'n ymwneud â gwaith y Comisiynydd i Aelodau'r Cynulliad ac yn rhannu copi wedi i'r datganiad gael ei wneud i Aelodau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# 5. Cyfarfodydd

## Cyfarfodydd rhwng y Gweinidog sy’n gyfrifol am y Gymraeg a’r Comisiynydd

5.1 Bydd y Gweinidog yn cyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg o leiaf bedair gwaith mewn blwyddyn galendr er mwyn rhannu gwybodaeth am weithgareddau’r cyrff a’r hyn a gyflawnwyd yn erbyn eu hamcanion, gan gynnwys yng nghyd-destun gweithio tuag at gyflawni targedau Cymraeg 2050. Caiff un o’r cyfarfodydd hyn bob blwyddyn ei glustnodi ar gyfer trafod cyllideb y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Bydd agenda ar gyfer y cyfarfodydd yn cael eu cytuno wythnos cyn dyddiad y cyfarfod.

## Cyfarfodydd rhwng y Comisiynydd a Gweinidogion eraill

5.2 O bryd i’w gilydd mae’n bosibl y bydd y Comisiynydd eisiau cwrdd â Gweinidogion sy’n gyfrifol am feysydd polisi eraill. Bydd y Gweinidog sy’n gyfrifol am y Gymraeg yn cael ei hysbysu ymlaen llaw o gyfarfodydd o’r fath, ond mater i’r Comisiynydd drefnu yn uniongyrchol â swyddfeydd Gweinidogion eraill yw’r cyfarfodydd hynny.

# 6. Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Y Gymraeg

6.1 Mae Adran 18(2) y Mesur yn gosod gofynion o ran Adroddiad Blynyddol, ac mae Adran 19(3) yn nodi bod rhaid cyhoeddi’r Adroddiad erbyn 31 Awst yn y flwyddyn ariannol sy’n dilyn y flwyddyn ariannol mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.

6.2 Mae Adran 18(2) yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

> “ (2)Rhaid i adroddiad blynyddol gynnwys y materion a ganlyn -
>
> “a. crynodeb o'r camau a gymerwyd wrth arfer swyddogaethau'r Comisiynydd;
> b. adolygiad o faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg;
> c. crynodeb o raglen waith y Comisiynydd;
> d. cynigion y Comisiynydd ar gyfer rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol;
> e. crynodeb o'r cwynion a wnaed yn unol â'r weithdrefn a sefydlwyd o dan adran 14. ”

# 7. Ariannu Comisiynydd y Gymraeg

7.1 Mae paragraff 17 o Atodlen 1 i’r Mesur yn gwneud darpariaethau ar gyfer y Comisiynydd yn paratoi amcangyfrifon blynyddol. Yn unol â pharagraff 17(2) rhaid i’r Comisiynydd gyflwyno’r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf 5 mis cyn dechrau’r flwyddyn ariannol mae’r amcangyfrif yn ymwneud â hi. Bydd Gweinidogion Cymru yn archwilio’r amcangyfrif ac yn ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol (gyda addasiadau os ydynt yn meddwl bod hynny yn briodol).

7.2 Yn dilyn cymeradwyaeth cyllideb Llywodraeth Cymru gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y Comisiynydd yn cael ei hysbysu o’r gyllideb fydd ar gael i’r Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol mor fuan ag sy’n bosibl.

7.3 Mae’n bosibl bydd Llywodraeth Cymru o bryd i’w gilydd yn trosglwyddo cyllid i’r Comisiynydd at ddibenion penodol. Pan fydd hynny’n digwydd bydd yr amodau yn cael eu hamlinellu’n glir mewn llythyr.

7.4 Bydd y Comisiynydd yn anfonebu’r Llywodraeth yn chwarterol a bydd cyllid yn cael ei drosglwyddo yn amserol. Bydd y taliad yn cael ei brosesu yn unol â

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

threfniadau ac amserlenni cyllidol Llywodraeth Cymru.

7.5 Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru, ddyletswydd i roi trefniadau digonol yn eu lle er mwyn sicrhau bod y dyraniad blynyddol yn cael ei ddefnyddio o ran yr angen am reoleidd-dra, priodoldeb, a gwerth am arian. Yn hynny o beth, bydd y Comisiynydd yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol i Lywodraeth Cymru y gall fod arni ei hangen ymlaen llaw drafodaeth mewn cyfarfodydd perthnasol.

7.6 Bydd y Llywodraeth yn hysbysu'r Comisiynydd a'r Pwyllgor Risg ac Archwilio mor fuan â phosibl o unrhyw archwiliad neu adolygiad y bydd yn ei gynnal a allai effeithio ar y Comisiynydd. Bydd y Llywodraeth yn darparu gwybodaeth am yr archwiliad neu'r adolygiad, a'r adroddiad terfynol i'r Comisiynydd mor fuan ag sy'n bosibl. Mae'r Comisiynydd yn ymrwymo i ddarparu pob cymorth phosibl wrth baratoi at, a chynnal adolygiadau ac archwiliadau.

# 8. Llywodraeth Cymru a Strategaeth Cymraeg 2050

8.1 Mae Gweinidogion Cymru o dan ddyletswydd trwy Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i baratoi strategaeth yn nodi sut mae'n bwriadu hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Ar hyn o bryd, Cymraeg 2050 yw'r strategaeth honno. Llywodraeth Cymru felly sy'n gyfrifol am bennu polisïau cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, ac am sefydlu cynllun blynyddol, strwythurau a systemau ar gyfer gweithredu'r strategaeth honno.

8.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r holl offer polisi sydd ar gael iddi i fwrw amcanion strategaeth Cymraeg 2050 yn eu blaen. I'r perwyl hwn, bydd Is-adran y Gymraeg, yn gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn prif-ffrydio'r Gymraeg drwy bob agwedd ar weithgarwch Llywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

8.3 Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. Bydd y rhaniad hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod amcanion Cymraeg 2050 yn cael eu gweithredu.

# 9. Egwyddorion ar gyfer cydweithio

Wrth arfer eu swyddogaethau, mae'r Comisiynydd a'r Llywodraeth yn gytûn y dylid gweithredu yn y modd canlynol:

9.1 Bydd Tîm Rheoli Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru a Thîm Rheoli'r Comisiynydd yn cael cyfarfodydd ffurfiol ar y cyd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Pwrpas y cyfarfodydd fydd cynllunio rhaglenni gwaith a sicrhau cyd-ddealltwriaeth am sut mae gweithgareddau'r cyrff yn cyfrannu at gyflawni amcanion Cymraeg 2050. Bydd trafodaeth benodol yn cael ei chynnal ar waith a wneir i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.

9.2 Bydd Comisiynydd yn darparu data a dadansoddiad ysgrifenedig i'r Llywodraeth yn flynyddol o sut mae ei waith wedi cyfrannu at Strategaeth Cymraeg 2050.

9.3 Bydd pwyllgorau o swyddogion rhwng y ddau gorff yn cael eu sefydlu er mwyn trafod gwaith penodol yn ôl y galw. Bydd rhai ohonynt yn cael eu sefydlu yn barhaol ac eraill dros-dro i ddelio gyda mater neu brosiect penodol.

9.4 Bydd y Comisiynydd a'r Llywodraeth ill dau yn cofleidio cydweithio, cyd-gynhyrchu, rhannu gwybodaeth a rhannu arbenigedd.

9.5 Bydd y Comisiynydd yn gweithredu'n hyd-braich o Lywodraeth – ac yn annibynnol ei farn – ond gyda ffocws clir ar weithredu ei rôl o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn modd sy'n cyfrannu at wireddu strategaeth Cymraeg 2050.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

9.6 Bydd y Comisiynydd yn gorff sy’n creu partneriaethau ar draws gwahanol sectorau, ac yn ysbrydoli eraill i weithredu er lles y Gymraeg.

9.7 Bydd y Comisiynydd yn cynnig cefnogaeth ymarferol ac arweiniad i gynorthwyo cyrff sy’n dod o dan y drefn Cynlluniau Iaith neu Safonau’r Gymraeg i gynyddu’r defnydd a wneir o’u gwasanaethau Cymraeg.

**Arwyddwyd gan:**

Eluned Morgan AC/AM, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, ar ran Gweinidogion Cymru

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg

# Atodiad 1

Fel y nodir yn 8.3, uchod, bydd y rhaniad hwn o gyfrifoldebau yn cael ei adolygu’n flynyddol i sicrhau bod amcanion Cymraeg 2050 yn cael eu gweithredu.

1.1 Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu swyddogaethau statudol Mesur y Gymraeg gan gynnwys gosod, monitro a gorfodi safonau’r Gymraeg, yn ogystal â gweithredu trefn Cynlluniau Iaith Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd y Comisiynydd hefyd yn arwain ar y meysydd polisi canlynol:

- Trydydd sector: gweithio gydag elusennau a mudiadau gwirfoddol i gynyddu darpariaeth Cymraeg ac i gynyddu’r defnydd o wasanaethau Cymraeg
- Gweithio â banciau, archfarchnadoedd, a busnesau mawr i gynyddu darpariaeth Cymraeg ac i gynyddu’r defnydd o wasanaethau Cymraeg
- Darparu cyngor i Awdurdodau Lleol ac eraill ar enwau lleoedd
- Darparu cyngor i Awdurdodau Lleol ar ddatblygu strategaethau iaith 5 mlynedd yn unol â gofynion Safonau’r Gymraeg

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Datblygu polisi i gynyddu defnydd o’r Gymraeg o fewn gweithleoedd, ac i gynorthwyo cyrff i gynllunio’u gweithluoedd
- Polisi: craffu’n annibynnol ar bolisïau’r Llywodraeth o ran y Gymraeg.

1.2 Bydd Llywodraeth Cymru yn arwain ar sicrhau bod egwyddorion cynllunio ieithyddol yn cael eu dilyn wrth weithredu polisi yn unol â rhaglen waith Cymraeg 2050. Bydd y Llywodraeth yn arwain ar y meysydd polisi canlynol:

- Trosglwyddo’r Gymraeg rhwng rhieni a’u plant,
- Cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc.
- Technoleg a'r Gymraeg.
- Corpws a therminoleg.
- Y Gymraeg mewn busnes
- Creu porth (y gelwir yn ‘Llinell Gyswllt’ yn ystod y cyfnod datblygu cyn ei lansio) er mwyn cyfeirio unigolion a busnesau at ffynonellau priodol o gymorth er mwyn cynyddu’r defnydd o’r Gymraeg
- Ymyraethau cynllunio ieithyddol ar lefel rhanbarthol/ardal: er enghraifft Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg; cynllunio gwlad a thref; datblygu economaidd; mentrau iaith.
- Ymchwil, data a gwerthuso.
- Arwain ar fentrau Ymwybyddiaeth Iaith (fel rhan o raglen Deall dwyieithrwydd) a’r negeseuon priodol i’w defnyddio i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg.
- Defnydd o’r Gymraeg mewn cymunedau.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth-rhwng-comisiynydd-y-gymraeg-llywodraeth-cymru-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.